**ELL 1-00(min)**

**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad**: Dydd Mercher 15 Hydref, 2000

**Amser:** 2.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Y Llawr Gwaelod, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Christine Humphreys | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc y Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Winston Roddick | Y Cwnsler Cyffredinol |
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Keith Davies | Yr Is-adran Perfformiad Ysgolion |
| Judith Cole | Yr Is-adran Perfformiad Ysgolion |
| Elizabeth Taylor | Yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Chris Burdett | Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| Tony Widdrington | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Datganiadau o Fuddiant:**

Gareth Jones Aelod o Gyngor Bwrdeistref Conwy

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Pauline Jarman Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf

Huw Lewis Athro Cofrestredig

**Sylwadau Agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a mynegodd ei bleser o gael ei benodi’n Gadeirydd. Talodd deyrnged i waith William Graham fel

Cadeirydd y cyn Bwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar.

Cyflwynodd Winston Roddick, y Cwnsler Cyffredinol a gyflwynodd y tîm cyfreithiol a fyddai'n darparu cyngor ar faterion Addysg:

Tony Widdrington

Catrin Hughes

Jancis Wiles (heb fod yn bresennol)

Grace Martin-Waring

Andrew Felton

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad Gweinidog y Cynulliad**

***Papur: ELL 1-00(p.1)***

1.1 Cynigiodd y Cadeirydd y dylid newid ffurf adroddiad y Gweinidog i'r Pwyllgor o'r Flwyddyn Newydd ymlaen, yr oedd wedi trafod hyn gyda'r Gweinidog. Y cynnig oedd y dylai adroddiad y Gweinidog ganolbwyntio ar faterion polisi a chael ei ddefnyddio i hysbysu'r Pwyllgor am fentrau newydd a chynnydd yn y strategaethau cyfredol. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn gallu gwahodd y Gweinidog i gynnwys eitemau yn ei hadroddiad a oedd o ddiddordeb arbennig iddo. Er mwyn rhoi lle i hynny byddid yn neilltuo 30 munud i'r eitem ym mhob cyfarfod a gellid ymestyn hynny os oedd nifer fawr o faterion i'w hystyried. **Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig hwn.**

1.2 Ymhlith y cwestiynau a godwyd yr oedd:

- pa bryd y byddid yn rhagbrofi'r Fagloriaeth Gymreig;
- a ellid rhoi ystyriaeth i ddatgan Ysgol Plas Brondyffryn yn adnodd rhanbarthol yn hytrach na'i bod yn parhau i fod ar gyfer disgyblion o Sir Ddinbych yn unig a beth oedd yr amserlen ar gyfer datrys yr anawsterau sydd yn wynebu'r ysgol;
- a oedd y Gweinidog yn bryderus ynghylch cyfraddau cwblhau'r brentisiaeth fodern;
- beth oedd yr amserlen ar gyfer yr ymchwiliad i ffioedd hyfforddi myfyrwyr;
- a ellid ymestyn y diploma medrau modern i gynnwys pobl anabl; a
- beth oedd safbwynt Fforwm ynghylch sefydlu Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant a chyflogi staff.

1.3 Atgoffodd y Gweinidog y Pwyllgor fod y Cytundeb Partneriaeth yn rhoi ymrwymiad i ragbrofi Bagloriaeth Gymreig, bod y swm o £600,000 wedi ei ddynodi yn y gyllideb ddrafft i gynnal hyn ond na chytunwyd ar amserlen hyd yn hyn. Yr oedd wedi ei denu gan yr awgrym y dylid

defnyddio Ysgol Plas Brondyffryn fel canolfan ranbarthol, yr oedd wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysg arbennig ac edrychai ymlaen at dderbyn adroddiadau oddi wrth gynrychiolwyr prosiectau peilot anghenion addysg arbennig gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2001. Yr oedd dileu'r cyfyngiad oedran ar y rhaglen prentisiaeth fodern yn gam mawr ymlaen a chyflwynwyd hynny er mwyn sicrhau y câi'r rhai dros 25 gwblhau eu cwrs, nid oedd pryder ynghylch y gyfradd cwblhau.

1.4 Byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr ynghylch cylch gorchwyl yr ymchwiliad i galedi myfyrwyr, byddai'n dod â'r mater i'r Pwyllgor fel rhan o'i Hadroddiad ar 13 Rhagfyr. Gwahoddodd y Pwyllgor i'w darparu ag enwau enwebeion y gellid eu hystyried ar gyfer aelodaeth y corff adolygu erbyn diwedd yr wythnos. **Yr oedd y swyddogion yn ystyried y posibiliad o ymestyn y diploma medrau modern i gynnwys y rhai ag anabledd, byddai'r Gweinidog yn darparu nodyn ysgrifenedig i'r Pwyllgor.**

1.5 Yr oedd y Gweinidog wedi cyfarfod yn fyr ag Enid Rowlands, darpar Gadeirydd y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru, a byddid yn trefnu cyfarfod ffurfiol cyn hir â Ms Rowlands a Steve Martin, Prif Weithredwr penodedig y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru. Byddid yn dyrannu Cyllid Anogaeth Partneriaeth i'r holl Gonsortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant cysgodol yng Nghymru.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Y Flaenraglen Waith**

***Papur: ELL 1-00(p.2)***

2.1 **Cytunodd** yr Aelodau ar y rhaglen waith ddrafft ar gyfer gweddill y tymor. Wrth ystyried y rhaglen ar gyfer y Flwyddyn Newydd, nododd y Cadeirydd fod y cyflwyniadau ar y prosiectau peilot addysg anghenion arbennig - a amserlennwyd yn wreiddiol ar gyfer cyfarfod y cyn Bwyllgor Addysg Cyn 16 ar 2 Tachwedd - wedi eu hailamserlennu ar gyfer 17 Ionawr.

2.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at y rhaglen ar gyfer yr Adolygiad Addysg Uwch a hysbysodd y Pwyllgor ei fod yn bwriadu achub ar y cyfle yn yr amserlen i gael cyfarfodydd ychwanegol er mwyn sicrhau na châi'r adolygiad ei ohirio'n rhy hir. Hyd yn oed ar ôl gwneud hynny, nid oedd yn ymarferol disgwyl i adolygiad mor allweddol gael ei gwblhau erbyn yr haf, y nod fyddai ei gwblhau yn nhymor yr hydref. Byddid yn darparu amserlen fanwl i'w hystyried gan yr Aelodau yn eu cyfarfod nesaf. **Cytunodd yr Aelodau ar y cynnig hwn.** Fel yr adroddwyd yn flaenorol gan y Gweinidog, byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i ystyried cylch gwaith yr adolygiad annibynnol o Galedi Myfyrwyr a gyhoeddwyd ganddi. Golygai hynny y byddai angen i'r Pwyllgor ailystyried cylch gorchwyl ei adolygiad ei hun o Addysg Uwch er mwyn sicrhau nad oedd gorgyffwrdd a bod y ddau adolygiad yn ategu ei gilydd.

2.3 Cytunwyd y byddid yn sefydlu gweithgor i gwblhau adroddiad y Pwyllgor ar y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer rhai teirblwydd oed, byddai'r gweithgor yn cynnwys Lorraine

Barrett, Gareth Jones, Christine Humphreys a Jonathan Morgan. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod cyntaf y gweithgor hwn a gofynnwyd i'r gweithgor adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar 13 Rhagfyr. Byddid yn trafod yr adolygiad polisi ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yng Nghymru fel rhan o eitem 3 ar yr agenda.

2. 4 Yr oedd yr adolygiad o'r Cyflenwad o Leoedd Ysgol yn fater mwy technegol na'r adolygiadau eraill a oedd ar waith. Byddai'n rhaid i'r Aelodau roi ystyriaeth ofalus i'r dull gorau o fwrw ymlaen â'r adolygiad ar ôl clywed y cyflwyniadau llafar. Cadarnhawyd y sesiynau cyflwyniadau llafar.

2.5 Yr oedd y Pwyllgor Busnes yn trafod enwebiadau i'r Panel Penodiadau Cyhoeddus ar y pryd, byddid yn gofyn i'r Aelodau ystyried hynny maes o law.

2.6 Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth yr oedd:

- a allai'r Pwyllgor fynnu i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth;
- mynegodd un Aelod bryder ynghylch y diffyg sylw i faterion deddfwriaeth eilaidd;
- dylid neilltuo mwy o amser i ystyried materion a godwyd yn 'Ymestyn Hawliau'.

2.7 **Byddid yn sicrhau cyngor cyfreithiol ynghylch a allai'r Pwyllgor fynnu i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru ymddangos ger ei fron.** Cytunodd y Cadeirydd y byddid yn darparu ar gyfer ystyriaeth bellach o 'Ymestyn Hawliau' mewn agenda yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylai hynny fod yr un pryd â chanlyniad yr ymgynghoriad cyfredol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adolygiad Polisi - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) mewn Addysg**

***Papur: ELL 1-00(p.3)***

3.1 Eglurodd y Cadeirydd mai pwrpas yr eitem hon oedd derbyn ac ystyried adroddiad terfynol yr Ymgynghorydd Arbenigol. Yr oedd Neil Harries wedi anfon ymddiheuriad ond, gwaetha'r modd, oherwydd newid dyddiad cyfarfod y Pwyllgor, yr oedd dramor ac ni fu modd iddo newid y trefniadau hynny. Gwahoddodd y Cadeirydd Huw Lewis a Jonathan Morgan i gyflwyno'r adroddiad a gwneud eu hargymhellion.

3.2 Rhoddodd Huw Lewis grynodeb o gefndir yr adolygiad er budd Aelodau na fuont â rhan yn yr adolygiad polisi hyd hynny.

3.3 Bu adroddiad drafft yr Ymgynghorydd Arbenigol yn destun cynhadledd o bwys a

gynhaliwyd ar 29 Medi yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ac fe'i newidiwyd o ganlyniad i hynny ar ôl y nifer fawr o sylwadau cynorthwyol a wnaethpwyd. Yr oedd cefnogaeth lethol i gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad. Un feirniadaeth allweddol a wnaethpwyd gan y rhai yn y Gynhadledd oedd y dylai'r adroddiad fod yn fwy uchelgeisiol, yn enwedig mewn perthynas â'r amserlen.

3.4 Y negeseuon allweddol oedd ei bod yn holl bwysig i ffyniant Cymru yn y dyfodol i bobl ifanc adael yr ysgol â lefel uchel o fedrau ym maes cyfnewidiol technoleg. Cymeradwyodd y ddau Aelod weledigaeth yr adroddiad o strategaeth TGCh genedlaethol a gwahoddasant yr Aelodau i gefnogi argymhellion yr Adroddiad.

3.5 Pwysleisiodd Jonathan Morgan yr angen i sefydlu grp dynamig bach erbyn y Pasg 2001 i gyflawni'r strategaeth o fewn tair blynedd, sef, **Pwyllgor Ymgynghorol ar Ddatblygu TGCh yng Nghymru**, ynghyd â **Thasglu TGCh** a **Thîm y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru**. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at Atodiad 4 yr adroddiad a ddisgrifiai'r strwythur trefniadol ar gyfer y tri chorff hyn. Atgoffwyd yr Aelodau bod argymhelliad na ddylai'r Pwyllgor Ymgynghorol a'r Tasglu ond parhau am oddeutu tair blynedd ac y dylid dod o hyd i gartref parhaol i Dîm y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru ar ôl y cyfnod hwnnw. Awgrymwyd amcangyfrif o £1 miliwn y flwyddyn fel ffigur realistig i dalu costau swyddfeydd a chyflogau ar gyfer y cyrff hyn, yr argymhellwyd eu sefydlu fel mater o flaenoriaeth.

3.6 Yr oedd yr Adroddiad wedi dynodi diffyg gwybodaeth drwyadl am lefel bresennol y ddarpariaeth o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn ysgolion, argymhellwyd felly y dylid gwahodd y Gweinidog i ymgymryd cyn gynted ag y bo modd ag archwiliad o offer TGCh mewn ysgolion yng Nghymru. Byddai'r archwiliad yn galluogi'r Gweinidog i wneud asesiadau cyllid realistig a oedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cyllid oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol a'r sector preifat.

3.7 Nid oedd darpariaeth ar gyfer sefydlu'r cyrff hyn yn y dyraniadau cyllideb a gynigiwyd a oedd eto i'w trafod. Felly yr oedd angen i'r Pwyllgor benderfynu a ddymunai argymell i'r Gweinidog y dylai fynd â'r mater at y Gweinidog dros Gyllid a gofyn am ddyraniad ychwanegol i'r gyllideb addysg er mwyn talu'r costau hyn neu, a ddylai'r Aelodau fel rhan o'u trafodaethau ar y gyllideb ystyried ailddosbarthu cyllid o linellau cyllideb eraill. Cytunodd yr Aelodau y dylid gofyn i'r Gweinidog ddilyn y mater o ddyrannu arian ychwanegol gyda'r Gweinidog dros Gyllid.

3.8 Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn cytuno ar yr argymhellion yn yr adroddiad ac y dylid bwrw ymlaen â'r bwriad i sefydlu'r tri chorff fel mater o flaenoriaeth. Dylid sefydlu'r cyrff hyn erbyn Ebrill 2001 a dyrannu cyllid ar eu cyfer fel swm ar ben y ddarpariaeth gyllideb gyfredol. Cytunwyd hefyd i argymell i'r Gweinidog y dylid symud ymlaen ag archwiliad o offer TGCh mewn ysgolion cyn gynted ag y bo modd.

9. Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth yr oedd:

- croesawyd yr adroddiad gan yr Aelodau;
- mor bwysig oedd integreiddio TGCh â'r cwricwlwm;
- y byddai datblygiad proffesiynol athrawon yn holl bwysig i lwyddiant y fenter yn yr un modd â rôl colegau hyfforddi athrawon;
- ym mha le y byddai gwaith y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a Fforwm Medrau Cymru yn ffitio i'r strategaeth a amlinellir yn Atodiad 4 yr Adroddiad;
- y dylid sicrhau cynaliadwyedd ariannol o'r dechrau a pheidio â gadael hynny i'w gyflawni drwy'r broses ymgeisio am gyllid y Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant;
- y dylid cymryd sylw o'r 'rhybuddion' a nodir ym Mhennod 5 o'r Adroddiad;
- pa ran a fyddai i'r sector preifat wrth fwrw ymlaen â'r fenter;
- y dylai'r Pwyllgor ystyried unrhyw wersi sydd i'w dysgu o brofiad menter TRACK 2000 a Busnes yn y Gymuned ar gyfer 'cyfrifiaduron yn y gymuned';
- y dylid rhoi sylw i ddefnyddio'r ystod donfedd gywir ac y dylai'r gefnogaeth gan dechnegwyr fod yn gynhwysfawr, o ansawdd uchel ac ar gael yn eang;
- wrth gefnogi argymhellion yr adroddiad, na ddylid darparu cyllid yn y dyfodol ar sail 'darpariaeth yn ôl cod post'.

3.10 Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Aelod am eu dull trylwyr o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Croesawodd y Gweinidog yr Adroddiad a'r argymhellion ynddo, cadarnhaodd y byddai'n codi mater cyllid gyda'r Gweinidog dros Gyllid. Pwysleisiodd y Gweinidog mor bwysig oedd archwiliad trwyadl o'r ddarpariaeth bresennol cyn y gellid gwneud penderfyniadau pendant ar gyllid. Cefnogodd y bwriad i ganolbwyntio'n gyntaf ar yr argymhellion i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol, y Tasglu TGCh - y credai fod iddo rôl ganolog - a thîm y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru.

3.11 Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am drafodaeth adeiladol. Gwahoddwyd Huw Lewis a Jonathan Morgan i baratoi adroddiad drafft i'w ystyried gan y Pwyllgor. Cytunasant i wneud hyn gyda chymorth y Clerc, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion hi ar gael hefyd i gynorthwyo â'r gwaith o ddrafftio'r adroddiad. Dylid dod ag adroddiad drafft i'r Pwyllgor yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Yr oedd dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn wedi ei phennu ar gyfer 6 Mawrth.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Cyllidebau**

***Papur: ELL 1-00(p.4)***

4.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y gyllideb ddrafft wedi ei chyflwyno gan y Gweinidog dros Gyllid ar 26 Hydref, yr oedd angen ymateb ffurfiol gan y Pwyllgor erbyn 16 Tachwedd.

4.2 Rhoddodd y Gweinidog gyflwyniad byr ar bapur y Gyllideb. Yr oedd yn falch o etifeddu cyllideb gadarnhaol a oedd yn cynyddu'r adnoddau mewn addysg a hyfforddiant o £56 miliwn / £125 miliwn / £182 miliwn dros dair blynedd o'u cymharu â'r flwyddyn gyfredol. Yr oedd y

cynigion wedi cymryd i ystyriaeth y blaenoriaethau a ddynodwyd gan y cyn Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl 16 a’r cyn Bwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar. Gwahoddodd y Pwyllgor i wneud sylwadau.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ystyried yr eitemau a godwyd oddi mewn i’r esboniad a oedd yn y papur, trafodwyd y pwyntiau canlynol:

***Paragraff 8 - Cyffredinol:***

- yr oedd fersiwn cynharach o bapur 4 wedi dynodi cynnydd mewn cyllid o £60 miliwn / £109 miliwn / £169 miliwn dros y tair blwyddyn, beth oedd yr eglurhad am hynny;

- a oedd y £80 miliwn y cyfeiriwyd ato’n arian ychwanegol;

- a oedd gwybodaeth am y modd y gwariwyd y cyllid ychwanegol o £75 miliwn y llynedd, a ellid egluro sut y câi cyllid ychwanegol ei ddefnyddio yn y dyfodol;

- ni roddwyd y raddfa cyflog arweinyddiaeth ar waith yng Nghymru oherwydd diffyg cyllid ar ei chyfer.

***Paragraff 11 - Y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru:***

- gyda chymorth y gronfa farchnata leol byddai modd i CCAH lunio llyfryn cynhwysfawr o wybodaeth am bob agwedd ar hybu medrau dysgu a hyfforddiant;

- pa bryd y gwelid a oedd unrhyw gyllid wrth gefn ar gael oddi wrth y Cynghorau Hyfforddi a Menter (CHM).

***Paragraff 13 - Y Cyngor Cyllido Addysg Uwch:***

- nododd y Cadeirydd y byddai canfyddiadau’r Adolygiad Addysg Uwch yn goleuo’r gwaith o ystyried anghenion y sector am gyllid ychwanegol mewn cylchoedd Cyllideb yn y dyfodol;

- holodd rhai o’r Aelodau a oedd y cyllid yn Lloegr yn uwch y pen nag ydyw yng Nghymru ac a oedd y bwlch hwnnw’n cynyddu neu’n lleihau, a oedd y bwlch yn y ddarpariaeth yn fwy yn yr Alban.

***Paragraff 14 - Cyllid Mynediad Myfyrwyr:***

- yr oedd un Aelod yn pryderu nad oedd y lwfans cynnal dysgu wedi ei raglennu i

ddechrau tan 2002.

***Paragraff 15 - Hybu Dysgu Gydol Oes:***

- a fyddai cyllid ar gael drwy'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru ac a fyddai hyn yn cynnwys addysg ail gyfle.

***Paragraff 17 - Ailstrwythuro Dysgu:***

- a fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cwrdd ag unrhyw ddiffygion a brofid gan awdurdodau addysg lleol.

***Paragraff 18 - Cyfalaf:***

- sut yr oedd y ddarpariaeth yn cyd-fynd â mentrau cyllid preifat;

- y dylid cadw gwariant cyfalaf ar yr un lefel o leiaf yn yr ail flwyddyn a'i gynyddu ym mlynyddoedd y dyfodol.

***Paragraff 19 - Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant:***

- gallai'r cynnydd yn y ddarpariaeth fod mewn perygl os na fyddai modd i awdurdodau ddarparu cyllid cyfatebol;
- y dylid rhoi gwedd eglurach ar y dyraniad a chynnwys costau amddifadedd.

***Paragraff 20 - ACCAC:***

- mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd mewn gwariant ar weinyddu a'r gostyngiad yng nghyllid rhaglenni, ymddangosai fod rhywbeth yn digwydd ynghylch Estyn.

***Paragraff 23 - TGCh:***

- Holodd yr Aelodau ynghylch diffyg cyllid penodol ar gyfer y fenter TGCh mewn Ysgolion, byddai angen £1 miliwn i lansio'r tri argymhelliad cyntaf a ddynodwyd yn yr Adroddiad, a chyfeiriwyd at y drafodaeth a'r cytundeb blaenorol.

***Paragraff 26 - Y Blynyddoedd Cynnar:***

- mynegwyd siom bod cyllid ar gyfer menter y Pwyllgor i'w ddal yn ôl am ddwy flynedd.

***Categorïau eraill - Anghenion Addysg Arbennig***

- Tribiwnlys Apêl Anghenion Addysg Arbennig - a oedd y costau'n cynyddu i gynnwys taliadau i rieni.

4.4 Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd, rhoddodd y swyddogion wybod bod y ffigurau a roddir yn awr ym mharagraff 8 yn gywir, yr oedd ffigurau llinell sylfaen anghywir yn y papur cynharach, yr oedd y ffigurau cywir yn dangos 2.8% o gynnydd gwirioneddol bob blwyddyn.

Cadarnhawyd bod y £80 miliwn yn ychwanegol at y llinell sylfaen ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. **Ar gais y Cadeirydd, câi nodyn briffio ei baratoi gan y swyddogion i egluro'r cyllid ychwanegol a oedd ar gael a sut y cyfrifwyd hynny, câi ei gylchredeg i'r Aelodau.** Mater i awdurdodau lleol, wrth gwrs, fyddai gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch gwariant ond byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi arwyddion eglur ynghylch y rhai a welai'n feysydd blaenoriaeth.

Nododd y swyddogion fod llawer o bwysau ar wariant awdurdodau lleol a chyda chytundeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr oedd cyn lleied o bridiannu ag yr oedd modd, yr oedd y swyddogion yn edrych yn fanwl ar fater y raddfa cyflog arweinyddiaeth.

4.5 Cytunodd y swyddogion fod angen mwy o wybodaeth ar fater cyllid CHM ac yr oedd gwaith yn digwydd ar hynny, yr oedd y cyllid wrth gefn yn lleihau'n gyflym ac ni fyddai'n eglur tan ddiwedd y flwyddyn ariannol beth a allai fod ar gael.

**Byddent hefyd yn bwrw golwg ar y gwahaniaethau a allai fod yn y cyllid y pen ar gyfer addysg uwch mewn perthynas â Lloegr a'r Alban, mae'n bosibl nad oedd y cyfrifiadau wedi eu gwneud ar yr un sail, byddid yn paratoi dadansoddiad. Cytunodd y Gweinidog ar y dull gweithredu hwn.** Byddid yn gwneud darpariaeth lawn ar gyfer ailstrwythuro athrawon. Nid oedd unrhyw gynlluniau menter cyllid preifat yn yr arfaeth ar y pryd, yr oedd Cynlluniau Rheoli Asesiad yn arfau allweddol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth oddi mewn i awdurdodau addysg lleol.

4.6 Ynghylch apeliadau anghenion addysg arbennig, byddai'r swyddogion yn edrych i weld a ellid rhannu 'ffi clwb' â'r Adran Addysg a Chyflogaeth.

4.7 Diolchodd y Gweinidog i'r Aelodau am eu sylwadau ac ailgadarnhaodd fod y Gweinidog dros Gyllid wedi edrych yn fanwl ar y blaenoriaethau mewn addysg. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- yr oedd yn falch o'r setliad a bod y cynnydd yn y ganran wedi ei egluro;
- byddai'r swyddogion yn ceisio egluro mater cyllid arweinyddiaeth;

- **byddai’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am dâl yn ôl perfformiad i athrawon fel rhan o’i hadroddiad nesaf i’r Pwyllgor;**
- byddai’n ystyried y posibiliad o gael cronfa farchnata ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru;
- **byddai’n adrodd yn rheolaidd i’r Pwyllgor ar gyllid anogaeth partneriaeth ac ar gynnydd ynghylch y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru;**
- byddai canlyniadau rhagbrofion yn Lloegr ar gyfrifon cynnal dysgu o gymorth wrth ystyried cyllid yng Nghymru ar gyfer 2002-03;
- byddai ymgynghori eang ar "Ymestyn Hawliau’ a rhaglenni eraill ar gyfer ieuenctid, pennwyd cyllid o £2 miliwn, £3 miliwn a £4 miliwn dros y tair blynedd nesaf, byddai’n gofyn i’r Gweinidog dros Gyllid ailedrych ar hyn yn y dyfodol;
- yr Asiantaeth Medrau Sylfaenol ac nid y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a ddarparai gyllid ar gyfer anghenion dysgu gydol oes;
- byddid yn edrych ar y rhesymau pam yr oedd athrawon yn methu croesi’r trothwy;
- yr oedd y Gweinidog wedi ymrwymo i ymdrin ag adnewyddu adeiladau ysgol ond yr oedd angen deialog â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cydnabu’r angen am wybodaeth archwilio lawnach, byddai Cynlluniau Rheoli Asesiad o gymorth yn hynny o beth;
- adolygwyd y fformwla ar gyfer Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant a newidiwyd amryw o benawdau gwariant, darparwyd mwy ar gyfer anghenion amddifadedd cymdeithasol;
- eglurodd fod ‘gostyngiad unigryw’ yn y cyllid a oedd ar gael er mwyn talu am gyhoeddi llyfryn ar Gyfraith Llywodraethwyr Ysgol; a
- bod y cyllid mewn perthynas â’r Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn gyntaf yn dybiannol er mwyn cwrdd â chost archwilio, y byddai’r cyllid ar gyfer y blynyddoedd dilynol, gan gynnwys argymhellion y Pwyllgor, yn agored i’w drafod.

4.6 **Gofynnwyd i’r Clerc baratoi llythyr i’w arwyddo gan y Cadeirydd at y Gweinidog.**

-

-

-